Cymryd rhan yn ein hetholiadau ymddiriedolwyr

Etholiad bwrdd ymddiriedolwyr CGGC 2024

Yn CGGC, rydyn ni eisiau i'n haelodau fynd ati'n weithredol i gymryd rhan yn ein gwaith ac i lunio'r gwaith hwnnw. Hoffem i bob un o'n haelodau chwarae rhan lawn yn yr etholiadau hyn. Bydd y canllaw hwn yn egluro rôl aelodau yn yr etholiadau ymddiriedolwyr a'r hyn sydd angen i chi ei wneud i gymryd rhan.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Rydyn ni'n ymrwymedig i gydraddoldeb ac eisiau adeiladu bwrdd ymddiriedolwyr cryf, amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu. Mae amrywiaeth yn cynnwys amrediad eang o nodweddion gwarchodedig, ond mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn derbyn enwebiadau ar gyfer pobl ifanc, pobl ag anabledd, pobl drawsryweddol a rhywedd anghydffurfiol, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r rheini o'r gymuned LHDTC+.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn hanfodol ac rydyn ni'n croesawu enwebiadau ar gyfer unigolion o bob cefndir.

GWNEUD ENWEBIAD

Mae **chwe lle i'w llenwi ar ein bwrdd** eleni. Aelodau CGGC yw'r unig rai a all enwebu rhywun yn ein hetholiadau ymddiriedolwyr.

Fel aelod o CGGC, gallwch chi enwebu **hyd at ddau unigolyn**. Gall enwebeion fod o unrhyw fudiad, nid oes rhaid iddynt fod yn aelodau o CGGC.

Gwnewch yn siŵr bod gennych chi ganiatâd yr enwebai/enwebeion a chytundeb eilydd (sy'n cefnogi eich enwebiad ar ran ei fudiad) cyn cyflwyno eich ffurflen enwebu.

Ni all yr eilydd a'r cynigydd fod o'r un mudiad partner CGGC.

BETH SYDD ANGEN I ENWEBEION EI WNEUD

Bydd angen i enwebeion anfon datganiad personol atom (dwy dudalen ar y mwyaf) yn dweud pa sgiliau a phrofiad fyddent yn eu cyflwyno i'r bwrdd, ynghyd â datganiad byr (200 o eiriau ar y mwyaf) sy'n ateb y cwestiwn – **'Pam ddylai aelodau CGGC?'** Bydd hefyd angen llun o'r enwebai arnom ar gyfer y wefan.

Bydd y datganiad byr a'r llun yn ymddangos ar wefan CGGC yn ystod y broses ethol/bleidleisio. Bydd angen i enwebeion gyflwyno eu gwybodaeth i ni'n uniongyrchol naill ai ar e-bost neu drwy'r post.

Os na fydd enwebai yn cyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen arnom yna ni fydd yr enwebiad yn mynd gam ymhellach.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Os bydd **mwy na chwe enwebai**, bydd pleidlais aelodau yn cael ei chynnal. Bydd y datganiad byr a'r llun yn ymddangos ar wefan CGGC ac yn ffurfio rhan o waith papur y bleidlais a fydd yn cael ei roi i'n haelodau, os bydd angen pleidlais.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi am **dair blynedd** a gallant wasanaethu am **hyd at naw mlynedd**.

ANFON EICH ENWEBIAD

Mae angen i ni dderbyn enwebiadau a datganiad personol a chrynodeb yr enwebeion erbyn **5 pm dydd Gwener 6 Medi 2024**.

Gallwch anfon eich enwebiad drwy e-bost at **tlewis@wcva.cymru**.

Neu drwy'r post at:

Tracey Lewis
CGGC
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF